

## MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

### Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Addysg, Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2021

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A.2 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol perthnasol a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU. Ystyr "offeryn statudol perthnasol" yw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru gan ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (y Senedd).
2. O dan RhS 30A.10, caiff unrhyw aelod gyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd yn gofyn am gytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol mewn offeryn statudol perthnasol.
3. Cafodd Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Addysg, Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) eu gosod gerbron Senedd y DU ar 18 Ionawr 2021 ac maent bellach yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru. Mae copi o'r Rheoliadau wedi'i osod gyda'r memorandwm hwn ac maent i'w gweld hefyd yn:

<http://www.legislation.gov.uk/id/ukdsi/2021/9780348219210>

#### **Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan**

4. Nod yr OS yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r OS yn diwygio Atodlen 11B i Ddeddf Addysg 2002 a darpariaethau yn Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002) 2005 er mwyn datgymhwyso'r egwyddor "gwlad tarddiad", ac mae'n gwneud diwygiadau canlyniadol eraill i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r DU bellach yn aelod o'r UE.
5. Mae angen y cywiriadau hyn er mwyn sicrhau y bydd y llyfr statud yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl ymadael.

#### **Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

6. Y ddeddfwriaeth sylfaenol a ddiwygir gan y Rheoliadau hyn yw Deddf Addysg 2002 (p.32) ("Deddf 2002"). Mae'r diwygiadau'n darparu ar gyfer datgymhwyso'r egwyddor "gwlad tarddiad" mewn perthynas â rhai darpariaethau yn Atodlen 11 B i Ddeddf 2002.
7. Mae Atodlen 11B yn ymdrin â throseddau am dorri cyfyngiadau adrodd o dan adran 141G o Ddeddf 2002, sef rhoi gwybod am droseddau honedig gan athrawon. Effaith y diwygiadau yw datgymhwyso'r egwyddor gwlad

tarddiad mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithas wybodaeth sydd o bosibl wedi torri'r cyfyngiadau adrodd o dan adran 141F.

8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraffau 5 i 6 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg.

### **Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

9. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, rydym o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Mae cydsynio i OS ar gyfer Cymru a Lloegr yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr, sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod digynsail hwn o newid.

**Julie Morgan AS / MS**

**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**19 Ionawr 2021**